PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 13
Mai 2013



*Cynrychiolwyr o'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes a enillodd gwobr Adran y Flwyddyn – O'r chwith i'r dde: y myfyrwyr Craig Price a Kelly Roach; Pennaeth yr Adran, Dr Malcolm Thomas; Darlithydd Addysg, Dr Stephen Atherton; y myfyrwyr Laura Ryan a Sarah Hall.*

2 Dysgu celf



4 Safon aur



7 Merlod Cymreig yn unigryw



10 Meithrin cyswllt â'r byd



14 Aber i Amsterdam



## Myfyrwyr yn gwobrwyo cefnogaeth ragorol

Cafodd aelodau o staff sy'n amlwg am eu gallu i ysbrydoli, herio ac ennyn diddordeb myfyrwyr eu cydnabod gan y myfyrwyr yng Ngwobrau Dysgu dan Arweinad Myfyrwyr eleni, a gynhaliwyd ar 30 Ebrill.

Cynhaliwyd y noson gan Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr, Jess Leigh, a'r Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol), a dyma'r ail waith i'r digwyddiad gael ei gynnal.

Roedd y gwobrau yn ddathliad o ragoriaeth addysgu yn ogystal â chyfraniad staff cynorthwyol a chynrychiolwyr y myfyrwyr yn y Brifysgol. Gwahoddwyd y myfyrwyr i gyflwyno eu henwebiadau ar-lein a thrwy'r blychau pleidleisio confensiynol a ddarparwyd mewn nifer o wahanol leoliadau ar draws y Brifysgol.

Derbyniwyd dros 250 o enwebiadau ar gyfer y gwobrau a oedd yn cydnabod rhagoriaeth mewn addysgu, datblygu cyflogadwyedd a chefnogi lles myfyrwyr. Dewiswyd yr enillwyr a'r rhai a dderbyniodd glod gan banel o feirniaid: Jess Leigh, Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr; Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor; John Glasby Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr; Grace Burton, Darpar Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr; a'r Swyddog Polisi Kieron Rees o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr.

Yn ôl trefnydd y digwyddiad, Jess Leigh, bu'n llwyddiant mawr oherwydd cefnogaeth frwd y staff a'r myfyrwyr. Dywedodd: "Roedd yn gyfle i fyfyrwyr ddiolch a gwobrwyo staff ymhob rhan o'r Brifysgol am y gwaith y maent wedi'u wneud gyda nhw ac ar eu cyfer, ac i ddathlu gyda'i gilydd."

Uchafbwynt y digwyddiad eleni oedd cyflwyno gwobr Adran y Flwyddyn i'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Llongyfarchiadau i bawb a gafodd wobr, ac i bawb a enwebwyd, a diolch i'r cannoedd ohonoch a gyflwynodd enwebiadau.

*Am restr lawn o'r enillwyr, gweler tudalen 2 o'r rhifyn hwn o NEWYDDION Aber.*

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 622946.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis **Gorffennaf 2013.**

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 3ydd Mehefin.**

NEWYDDION

# Dysgu celf

Yn yr ail erthyl yn ein cyfres yn canolbwyntio ar ddatblygiadau yn y Brifysgol ddeugain mlynedd yn ôl, edrychwn ar hanes yr Ysgol Gelf. Er iddi fod yn annibynnol ers 1973, fel y mae'r Athro Robert Meyrick (Pennaeth yr Ysgol Gelf a Cheidwad Celf) yn esbonio, mae dysgu Celf yma yn Aberystwyth yn mynd yn ôl lawer ymhellach:

Ddeugain mlynedd yn ôl cafodd yr Adran Gelf Weledol ei hannibyniaeth oddi wrth yr Adran Addysg a symudodd i gyn-gartref yr Adran Bacterioleg Llaeth ar Ffordd Llanbadarn. Ond mae hanes dysgu celf yn Aberystwyth yn llawer hŷn na hynny. Bydd yn dathlu ei ganmlwyddiant yn 2017.

Yn y 1910au roedd cyflwr y celfyddydau gweledol yn mynd yn fwyfwy o destun pryder. Yn 1917, pan oedd yr aeresau cefnog Gwendoline a Margaret Davies yn ystyried troi Plas Gregynog yn ganolfan i'r crefftau gwledig, ysgrifennodd Gwendoline at y Brifysgol yn cynnig cefnogi dysgu celfyddyd a chrefft a helpu i sefydlu amgueddfa. Gobeithiai'r chwiorydd y byddai'r gweithgareddau roeddent yn eu cynllunio ar gyfer Gregynog, yn ogystal â hyfforddi athrawon ysgolion elfennol ac uwchradd yn Aberystwyth, yn arwain at Adfywiad ym maes Celfyddyd a Chrefft yng Nghymru. Roeddent am ddysgu athrawon dan hyfforddiant a'u hysbrydoli i ddal ati yn yr ysgolion – yn enwedig yr ysgolion lleol, a'u gobaith oedd y byddai hynny yn ei dro yn meithrin adfywiad mewn diwydiannau crefft lleol. Penodwyd Daniel Jones yn Feistr Darlunio ar yr Adran Celfyddyd a Chrefft, sef isadran yn yr Adran Addysg, a oedd ar y pryd yn yr Hen Goleg. Cafodd Jones gymorth y peintiwr Valerius de Saedeleer a'i ferched, sef teulu o ffoaduriaid o Wlad Belg roedd y chwiorydd Davies wedi dod â nhw i Gymru ym mis Medi 1914. Aberystwyth oedd yr unig brifysgol ym Mhrydain i'w chysylltu ei hun â'r Mudiad Celfyddyd a Chrefft.

Yn 1933 cafodd cyrsiau ar gelfyddyd a chrefft eu cynnwys mewn cynlluniau gradd BA ac fe gafodd yr Adran Celfyddyd a Chrefft ei hannibyniaeth oddi wrth yr Adran Addysg. Penododd Pennaeth yr Adran, sef Dan Jones, y cerflunydd Robert Lambert Gapper yn ddarlithydd cynorthwyol dros dro yn 1934. Ond byrhoedlog fu annibyniaeth yr Adran. Ymhen ychydig fisoedd roedd Gapper wrthi'n cerfio cofeb i Dan Jones a fu farw'n ddisymwth yn ystod tymor Gŵyl Fihangel y flwyddyn honno.



Peter Tapley, Cymrawd Cerflunio, yr Adran Celf Weledol gyda'r myfyrwyr Linda Norris (ar y chwith) a Deborah Nash (ar y dde), 1979

Tua'r un pryd daeth Prifathro newydd ar Aberystwyth, Ifor Evans, a ddaeth â'r Adran i ben yn syth, gan ddatgan 'does dim lle i gelf yn Aberystwyth'! Serch hynny, o dan arweiniad Gapper, a David Tinker o 1962 ymlaen, daliwyd ati i ddysgu celf yn stiwdios Stryd Cambria.



*Tiwtorial Peintio – Robert Meyrick (ar y chwith) a Michael Harrison (ar y dde), 1987*

Yn 1973, daeth y pwnc yn annibynnol unwaith eto ac fe gafodd adeilad newydd – ar y dechrau dim ond graddau Cyfun yr oedd yn eu cynnig, ond wedyn fe aeth ymlaen i gynnig cynlluniau gradd Sengl, Meistr a PhD mewn celf a hanes celf. Tan 1992, Aberystwyth oedd yr unig brifysgol yng Nghymru i ddysgu celf ac roedd yn un o ddim ond wyth o brifysgolion ledled Prydain a gynigiai'r pwnc.

Ddechrau'r 1990au, adferwyd Labordai Cemegol Edward Davies a'u haddasu'n Ysgol Gelf ar ei newydd wedd. Fe'i hagorwyd gan yr Is-Ganghellor Kenneth O Morgan ym mis Mawrth 1994. Roedd y staff a'r myfyrwyr yn gweithio'n agos iawn yno, ac o'r herwydd tyfodd ymdeimlad cryf o gymuned a chydweithredu ac aeth yr adran o nerth i nerth. Gyda'i stiwdios pwrpasol, ei horielau a'i hystafell astudio lle ceir casgliad yr amgueddfa o gelfyddyd gain ac addurnol, mae'r adeilad Edwardaidd cofrestredig Gradd II* yn dal i fod yn amgylchedd sy'n ysbrydoli'r staff a'r myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymarfer, hanes a churadu celfyddyd.

## Enillwyr y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr eleni oedd:

**Staff cymorth y flwyddyn**
Gwenan Creunant, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

**Addysgu Arloesol**
Dr Alun Hubbard, Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

**Tiwtor Personol y Flwyddyn**
Balasz Pinter, Sefydliad Mathemateg a Ffiseg

**Addysgu drwy Dechnoleg**
Dr Madeline Carr, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

**Effaith Cyflogadwyedd**
Dr Iwan Owen, Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig

**Gwobr Addysgu Rhagorol**
Mike Smith, Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

**Cynrychiolydd ôl-raddedig y flwyddyn**
Alexandra Kilcoyne, Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

**Cynrychiolydd israddedig y flwyddyn**
Kevin Wingfield, Sefydliad y Gwyddorau Mathemategol a Ffisegol

**Adran y Flwyddyn**
Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes

## COLOFN YR IS-GANGHELLOR



Rwy'n ysgrifennu'r golofn hon ar drên 56 Vermonter Amtrak o Washington DC i Philadelphia. Mae arnaf ofn ei bod yn bwrw glaw (dywedwyd wrthym fwy nag unwaith ein bod wedi dod â thywydd gwyllt Gorllewin Cymru gyda ni), ond ar wahân i hynny, mae'r daith yn argoeli'n dda iawn.

Gyda chymaint i'w wneud gartref – paratoi at y graddio, ein Diwrnod Agored i'r dref a'r gymuned ('Mynediad am Ddim') ar 22 Mehefin, a chau pen y mwdwl ar gynllunio'r Athrofeydd newydd – pam ydw i'n credu ei bod mor bwysig teithio'r byd? Mae'n fater o roi lle amlwg i Aberystwyth, cwrdd â'n cyn-fyfyrwyr, a pharatoi at ein Strategaeth Ryngwladol newydd.

Mae teithiau rhyngwladol yn gyfle, yn gyntaf oll, i ni feithrin cyswllt â'n cyn-fyfyrwyr. Efallai na fydd rhai ohonyn nhw wedi bod i Aber ers blynyddoedd – ond sut mae disgwyl iddyn nhw ymddiddori yn ein cynlluniau at y dyfodol, neu gynnal diddordeb yn ein cynlluniau, ac efallai gyfrannu atyn nhw, os nad ydyn ni'n gwneud ymdrech i fynd i'w gweld? Pan fyddaf yn cymryd rhan mewn digwyddiadau i gyn-fyfyrwyr fel yr un a gynhaliwyd gennym (diolch i haelioni cyn-fyfyrwraig a gwaith caled ein cyd-weithwyr yn DARO, fel arfer) yn Washington neithiwr, byddaf bob amser yn synhwyro rhyw gyfuniad o hoffter a brwdfrydedd tuag at Aberystwyth, a diddordeb mawr yn ein cynlluniau. Ac roedd yn dda iawn gen i glywed bod sôn am Y Gwyll / Hinterland eisoes wedi cyrraedd yr Unol Daleithiau!

Yr ail reswm dros ein hymweliadau rhyngwladol yw mynd i weld sefydliadau sy'n bartneriaid i ni. Ni all partneriaethau ddal i fynd ar eu pen eu hunain – mae angen gofalu amdanynt, ac mae mynd yn ôl bob rhyw flwyddyn neu ddwy'n gyfle i ni gadw mewn cysylltiad a datrys unrhyw fân broblemau cyn iddyn nhw fynd yn rhai mwy difrifol. Yn yr un modd, efallai y byddwn hefyd yn ceisio mynd i weld un neu ddwy o brifysgolion a allai fod yn ddarpar bartneriaid i ni. Wrth gwrs, mae partneriaethau ymchwil a dysgu'n gweithio orau pan fydd gennym 'hyrwyddwyr' ar bob ochr a chanddynt ddigon o frwdfrydedd a diddordeb gwirioneddol i'w helpu i ffynnu; yn aml iawn, y rhain fydd y cyd-weithwyr a awgrymodd y bartneriaeth yn y lle cyntaf. Ac mae cynlluniau cyfnewid myfyrwyr a recriwtio rhyngwladol yn aml yn dibynnu ar argymhelliad gan fyfyriwr sydd wedi cael cyfle i gael blas ar yr hyn sydd gan Aber i'w gynnig – rheswm arall dros gadw mewn cysylltiad â'n cyn-fyfyrwyr, sy'n aml gyda'r llysgenhadon gorau sydd gennym. Ond gall ymweliad cychwynnol gennyf fi neu aelod arall o'r Weithrediaeth, ynghyd â'n cyd-weithwyr yn y Swyddfa Ryngwladol, helpu i sefydlu'r bartneriaeth honno a rhoi cyfle iddi ffynnu.

A sôn am ein Swyddfa Ryngwladol, rydym yn ddiweddar wedi penodi tri chyd-weithiwr newydd i weithio â gwledydd penodol. Yn ymuno â Rachel Tod, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ryngwladol, a chyd-weithwyr yn y swyddfa, mae ein recriwtiaid newydd Marian Gray i ymdrin â'r Amerigau, Ula Wang ar gyfer Tsieina a Hong Kong, ac Amarjeet Mutneja ar gyfer India. Os nad ydych wedi cwrdd â Marion, Ula ac Amarjeet eto, ac yn enwedig os oes gan eich Adran ddiddordeb yn y marchnadoedd penodol hyn, mae croeso i chi gysylltu â nhw i weld sut y gallan nhw helpu.

Fel y gwyddoch o'r Cynllun Strategol, mae datblygu ein Strategaeth Ryngwladol ymhellach ac yn gynt yn allweddol o ran cyrraedd ein targedau, o waith ymchwil ar y cyd a recriwtio myfyrwyr i greu cyfleoedd i rannau o'r byd lle mae myfyrwyr ac ymchwilwyr a fyddai wrth eu bodd yn cael manteisio ar yr hyn sydd gennym i'w gynnig yn Aberystwyth, ond sydd efallai'n methu fforddio dod yma atom yng Nghymru. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor John Grattan yn gweithio ar hyn o bryd ar ailwampio ein Strategaeth Ryngwladol, ar sail y Cynllun Strategol a sgwrsio â llawer ohonoch chi; a chewch glywed mwy o lawer am hyn cyn hir. Edrychaf ymlaen at gymryd rhan yn y trafodaethau hynny – ar ôl i ni orffen cwrdd â chyn-fyfyrwyr, prifysgolion sy'n bartneriaid i ni a chyfeillion newydd, a rhoi iddynt lwyau caru hyfryd (a gwreiddiol iawn) Prifysgol Aberystwyth!

**Yr Athro April McMahon,** Is-Ganghellor

## Derbyn Alex Jones yn Gymrawd

Dychwelodd cyflwynydd *The One Show,* Alex Jones i Aberystwyth ar 27 Ebrill er mwyn cael ei derbyn fel Cymrawd.

Mae Alex yn gyn-fyfyrwraig yn y Brifysgol gan raddio gyda BA mewn Drama yn 1998. Ar ôl graddio, bu Alex yn gweithio ym myd y cyfryngau gan gynnwys fel cyflwynydd teledu plant ar gyfer S4C.

Yn ystod ei hymweliad, gofynnwyd i Alex i gymryd rhan mewn *The One Show* ffug, gyda myfyrwyr yn cyfweld a ffilmio sioe siarad fer, ac yna sesiwn agored i fyfyrwyr a staff pan ofynnwyd i'r gynulleidfa gynnig amrywiaeth o gwestiynau.

Wrth sôn am y Gymrodoriaeth a'i thrip i Aberystwyth, dywedodd Alex: "Roedd yn bleser gwirioneddol i ymweld â'r Brifysgol ac yn anrhydedd arbennig i dderbyn y Gymrodoriaeth. Mae Aberystwyth yn lle arbennig iawn ac mae gen i atgofion gwych o fy amser yma fel myfyriwr."



*Ch-Dd: Gwerfyl Pierce Jones, Is-Lywydd Prifysgol Aberystwyth gydag Alex Jones*

NEWYDDION

# Safon aur

Mae tîm swyddfa docynnau Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth wedi derbyn gwobr lefel Aur Siarter Iaith Ceredigion. Pwrpas Siarter Iaith Ceredigion yw codi ymwybyddiaeth am wasanaethau Cymraeg a dwyieithog a ddarperir ar draws y sir.

Datblygwyd y Siarter Iaith gan Geredigion Dyfodol Dwyieithog, ar ran Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion ac mae'n ffocysu ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg yn y Sir. Mae'n agored i bob mudiad, sefydliad, clwb neu fusnes yng Ngheredigion. Mae 'na dair gwobr ar gael, gyda'r Aur yn amlwg y wobr orau!




*Ch i'r Dd: Carolyn Evans, Rachael Taylor James, Nerys Hughes, Lynette Evans, Hannah Crute, Nia Edwards-Behi, Sian Bennett*

Dywedodd Louise Amery, Dirprwy Gyfarwyddwraig Canolfan y Celfydydau: 'Mae Canolfan y Celfyddydau wastad wedi bod yn ymrwymedig i gynnig gwasanaeth dwyieithog i'n holl gwsmeriaid yn y swyddfa docynnau, ac 'rydym yn falch iawn o'n tîm yno sydd wedi ennill y Wobr Aur.'

# Ei gwadnu hi tua'r gwanwyn

Mae gwanwyn 2013 yn araf iawn yn cyrraedd ond, serch hynny, ar ddydd Gŵyl Dewi aeth staff y Brifysgol ati i weld a allen ni gerdded, nofio neu feicio ymhellach nag y gwnaethom yn y blynyddoedd gynt. Ar ben hynny, er mwyn gwneud y digwyddiad eleni ychydig yn fwy cystadleuol, rhoddwyd her i Fangor i weld pa Brifysgol a allai fynd bellaf.



Er gwaetha'r 4 wythnos o dywydd rhewllyd, cychwynnodd pawb ar frys a chyrraedd 26,000 o filltiroedd toc ar ôl y Pasg. Dros y 4 wythnos nesaf, a oedd fymryn yn gynhesach, dyma lwyddo i gwblhau 13,683 yn rhagor o filltiroedd, gan roi cyfanswm o 39,683 o filltiroedd eleni!

Diolch unwaith eto i'r Ganolfan Chwaraeon am ddarparu sesiynau nofio am bunt i annog y staff i blymio i'r dŵr, i aelodau'r swyddfa Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd am becynnu'r mesuryddion camu ac am gyfieithu'r diweddariadau, i bartneriaeth Aber-Bangor am ariannu'r rhoddion ac i Rob Johnson yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a gynhaliodd ein gwefan, yn ogystal â sefydlu gwefan 'Teithio'r Byd' i Fangor a olygai y gallem eu herio. Heb i'r holl adrannau gydweithio â'i gilydd yn y ddau sefydliad, ni fyddai'r digwyddiad hwn yn gymaint o lwyddiant ysgubol.

Roeddem wrth ein bodd bod rhyw 20% o staff Prifysgol Aberystwyth wedi cymryd rhan yn y fenter hon a gobeithiwn y bydd wedi annog staff i arddel ffordd fwy gweithgar o fyw. Bydd y wefan ar agor dros y flwyddyn nesaf fel y gall pobl ddal ati i gofnodi eu gweithgareddau ac efallai hyd yn oed gwblhau'r her unigol i deithio ar hyd glannau gwledydd Prydain.

Os hoffech weld pa Brifysgol aeth bellaf, cewch weld y wybodaeth derfynol ar ein gwefan Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd - www.aber.ac.uk/en/hse/.

# Nofelwyr ifanc gorau

Enwyd un o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, Sarah Hall, a raddiodd mewn Saesneg a Hanes Celf ym 1995, ymysg ugain nofelydd ifanc gorau Prydain ar restr unwaith-mewn-degawd y cylchgrawn *Granta*.

Mae Sarah Hall wedi ysgrifennu nifer o nofelau arobryn megis *Haweswater* (2003), *The Electric Michelangelo* (2004), a *The Carhullan Army* (2007), a restrwyd yn un o 100 Llyfr Gorau'r Degawd gan *The Times*. Cafodd ei nofel ddiweddaraf *How to Paint a Dead Man* (2009) ei chynnwys ar restr hir Gwobr Man Booker. Yn 2011 cyhoeddodd ei chasgliad cyntaf o straeon byrion, o'r enw *The Beautiful Indifference*. Cyfieithwyr ei gwaith i fwy na dwsin o ieithoedd.

Wrth sôn am ei chyfnod yn y Brifysgol, dywedodd Sarah Hall: "Rwy'n credu bod yr Adran Saesneg wedi bod yn allweddol wrth yng ngosod ar y ffordd i fod yn awdur. Cymerais fy nghwrs ysgrifennu creadigol cyntaf yn Aberystwyth, gan wir gynnau tân yn fy mol, a rhoi imi'r hyder i gadw i fynd. Mae gen i atgofion melys iawn o'r lle, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r darlithwyr hynny a oedd mor angerddol a deinamig, ac a fu'n gyfrifol am feithrin ynof yr hyn sydd bellach yn fwynhad parhaol o lenyddiaeth ac ysgrifennu."

Ers tri degawd yn olynol, mae'r rhestr *Granta* Best of Young British Novelists wedi bod yn hyrwyddo gwaith awduron dawnus yn y byd llenyddol Prydeinig.



*Sarah Hall Credit: Richard Thwaites*

NEWYDDION

# BioBlitz Penglais – mae'r record yn dal o fewn cyrraedd



Rydych yn gwybod eich bod yn rhan o rywbeth hynod pan fydd criw o tua ugain o bobl yn barod i godi cyn toriad gwawr ar fore Sadwrn oer a gwlyb i chwilio am ystlumod. I ffwrdd â nhw am ddwy awr gyda'u synwyryddion uwchsain, a dod yn ôl yn dal yn llawn brwdfrydedd er na chlywsant na siw na miw!

Oedd, roedd y tywydd ar Gampws Penglais ar gyfer BioBlitz yn wirioneddol echrydus – yn oer, yn wlyb, gyda chesair hyd yn oed ar brydiau – ond doedd hynny ddim yn ddigon i atal dros 200 o bobl rhag dod atom drwy gydol y dydd. Bu arbenigwyr o bob math o lawer o grwpiau diddordeb lleol yn helpu i arwain sesiynau ar bopeth o ficrobau i fodau dynol.

Cynhaliwyd y digwyddiad dros 24 awr o ganol nos nos Wener tan ganol nos nos Sadwrn 11 Mai, a llwyddodd llond llaw o selogion i aros yn effro drwy gydol y dydd.

Mae'r digwyddiad bellach ar ben, ac nid yw'n glir eto beth fydd cyfanswm y rhywogaethau, ond fe fydd oddeutu 2000. Ymhlith y rheiny sydd eisoes ar y gronfa ddata mae: 1062 o ficrobau, 450 o blanhigion uwch, 14 o famaliaid, 40 o adar, 24 o drychfilod, 2 ymlusgiad, 3 amffibiad a 7 pysgodyn. Mae rhestr gyflawn y rhywogaethau a welwyd ar y diwrnod yn dal i dyfu fesul awr, ac mae rhwng 100 a 200 o gennau'n dal heb eu cofnodi, er enghraifft. Felly mae siawns wirioneddol y byddwn yn torri'r record.

Ymhlith uchafbwyntiau BioBlitz roedd gweld pryfed cop a nadroedd cantroed newydd. I'r rhai hynny y mae'n well ganddyn nhw rywbeth mwy pert a chwtslyd, gwelwyd moch daear, cwningod a gwiwerod, er gwaetha'r tywydd a'r Ddawns Fai.

Ac wrth i'r digwyddiad dynnu tua'r terfyn cafodd yr ystlumgarwyr fodd i fyw o weld dwy rywogaeth – y Pipistrelle a'r Soprano Pipistrelle.

## Diweddaraf am y Prosiect Amserlenni

Fel y gwyddoch, mae newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i sut y mae'r amserlen addysgu yn y Brifysgol yn gweithio. Mae tîm y prosiect wedi bod yn gweithio gydag adrannau academaidd ers mis Hydref 2012 i wella'r system a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y Brifysgol; y staff a'r myfyrwyr. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar staff ar draws y Brifysgol sy'n ymwneud ag addysgu a gweinyddu amserlenni. Os hoffech weld copi o'r cyflwyniad PowerPoint i staff, e-bostiwch

timetable-project@aber.ac.uk

Croesawir eich adborth.

## Lanbadarn

Bydd yr Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth newydd yn symud i Lanbadarn erbyn mis Medi 2013.

Dros fisoedd yr haf bydd nifer o ddatblygiadau cyffrous yn digwydd yn Lanbadarn, gyda'r nod o wneud y profiad myfyrwyr yn un rhagorol a hefyd i sicrhau bod y trosglwyddo i'r safle newydd yn hwylus. Bydd mannau addysgu, dysgu a chymdeithasol yn cael eu hadnewyddu a bydd ystafelloedd seminar a darlith ychwanegol yn cael eu creu. Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Mehefin.


Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at llanbadarn@aber.ac.uk.

# Argyfwng Parth yr Ewro

Ar 16 Ebrill, bu'r Arglwydd David Owen, cyn ddiplomydd Prydeinig nodedig a chyn weinidog cabinet yn y llywodraeth, yn annerch Prif Neuadd orlawn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Yr Undeb Ewropeaidd oedd testun ei anerchiad.

Dadl yr Arglwydd Owen oedd fod yr argyfwng yn Ewrop yn ymwneud â mwy na dim ond gwendidau technegol o ran mabwysiadu'r arian sengl, ond ei fod yn ymwneud yn fwy sylfaenol ag anghydnawsedd y ffaith bod llywodraethau'r UE wedi bod yn dilyn modelau gwahanol, ac yn honni ar yr un pryd fod ganddynt nod cyffredin. Dywedodd y dylai gwledydd sy'n gweld eu dyfodol yn rhan o undeb agosach fyth fod yn rhydd i ymgyrraedd at y nod hwnnw, ond y dylid parchu sofraniaeth y gwledydd hynny sy'n ffafrio undeb o wladwriaethau hunanlywodraethol, a chaniatáu iddynt aros mewn marchnad sengl wedi'i hailstrwythuro. Recordiwyd y ddarlith gan ddefnyddio AberCast ac mae ar gael yn:

http://abercast.aber.ac.uk/Panopto/Pages/Viewer/Default.aspx?id=37cd4ae1-8dfc-41a4-9680-c1881647db7a



Lord David Owen

Rhoddodd yr Arglwydd Owen hefyd anerchiad mewn seminar bord gron y diwrnod wedyn ar ddisodli neu adnewyddu Trident a'r mudiad dros fyd heb arfau niwclear; mudiad y bu'n aelod blaenllaw ohono. Bwriad ei anerchiad oedd cynnig opsiynau newydd a ffyrdd newydd o feddwl am sut i leihau storfa arfau niwclear Prydain a chymryd camau pellach i lawr yr ysgol tuag at 'Sero Byd-eang'. Daeth llawer iawn o'r staff a'r myfyrwyr i'r seminar ac roedd yr Arglwydd Owen yn gwerthfawrogi'r safbwyntiau a gynigiwyd. Diolchodd i'r adran am ei groesawu ar ei ymweliad deuddydd. I weld anerchiad yr Arglwydd Owen ewch i:

http://abercast.aber.ac.uk/Panopto/Pages/Viewer/Default.aspx?id=16edd3b6-5410-4a93-9023-d85722a4a5ac

# Ymchwil Aber



## Swyddogion Ymchwil a Datblygu Ewropeaidd

A threfn newydd yr Athrofeydd ar ein gwarthaf, mae'r golofn yn y rhifyn hwn yn esbonio sut y trefnir y Swyddogion Ymchwil a Datblygu Ewropeaidd er mwyn iddynt allu darparu cymorth i ymchwilwyr.

Gweledigaeth y Swyddfa Ymchwil *yw cynyddu incwm ymchwil mewn modd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac ar yr un pryd yn lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ymchwil ar yr ymchwilwyr, a darparu systemau integredig ar gyfer monitro ymchwil a rheoli cynnyrch ymchwil.*

Nod y Swyddogion Ymchwil a Datblygu Ewropeaidd yw mynd ati i gydweithio ag ymchwilwyr i ddod o hyd i grantiau, cael gafael arnynt a'u rheoli, a thrwy hynny hwyluso gwaith ymchwil ac arloesi er mwyn helpu'r Brifysgol i gyflawni ei hamcanion strategol.

A hwythau'n darparu cymorth i ymchwilwyr, mae'r tîm yn rhan o bron pob cam o'r broses ymchwil, ac fe fyddant yn:

- Darparu cyfarfodydd cychwynnol i bob aelod newydd o'r staff darlithio
- Darparu hyfforddiant cyllido PIVOT i grwpiau neu unigolion
- Dod o hyd i ffrydiau ymchwil neu alwadau sy'n addas i chi
- Dod ag ymchwilwyr at ei gilydd i ystyried cyfleoedd i weithio ar draws disgyblaethau er mwyn denu cyllid
- Cyfeirio ymchwilwyr i Uned Ewropeaidd y Swyddfa Ymchwil i gael cymorth arbenigol
- Trefnu digwyddiadau megis: Sesiynau Cryno ar Gyllid, sesiynau ar RCUK ac elusennau sy'n cyllido ymchwil, hyfforddiant Llwybrau at Effaith, ymweliadau gan gyllidwyr, Caffis Ymchwil misol, a sesiynau gwybodaeth ar gyllidwyr penodol
- Cydweithio ag academyddion ac ymchwilwyr i lunio ceisiadau: llunio a drafftio llwybrau i greu effaith; cyfiawnhau adnoddau ac adrannau safonol eraill
- Helpu i ddrafftio amcangyfrif costau ar gyfer prosiectau ymchwil
- Dod o hyd i gydweithredwyr rhyngwladol posib ar gyfer ymchwil
- Gwirio 'callineb' pob cais am grant a chymeradwyo cam cyntaf pob cais a gyflwynir drwy Je-S
- Helpu i drafod â'r Comisiwn Ewropeaidd neu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru pan fo grant yn cael ei gynnig
- Mynd i gyfarfodydd Ffeil Rheoli Cychwyn Prosiectau (PIMF) i drosglwyddo i'r cymorth a ddarperir ar ôl cael cyllid gan Gyllid Ymchwil
- Darparu cymorth Sicrhau Ansawdd i brosiectau a nodir gan reolwyr yr athrofa fel rhai 'risg uchel'
- Helpu ymchwilwyr i ddod o hyd i gyllid ar gyfer cam nesaf eu hymchwil

## Cysylltu â ni:

| Dyma'ch man cyswllt cyntaf: | Enw | Ebost | Disgyblaeth |
|---|---|---|---|
| Swyddfa Ymchwil | | research@aber.ac.uk | |
| Cyllid Ymchwil | | rfo@aber.ac.uk | |
| **Dyma'r enwau cyswllt ar gyfer yr Athrofeydd newydd:** | **Enw** | **Ebost** | **Disgyblaeth** |
| Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol<br>Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion | Dafydd Roberts | dir@aber.ac.uk | Y Celfyddydau a'r Dyniaethau |
| Athrofa Daearyddiaeth, Hanes a Gwleidyddiaeth<br>Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth | Jennifer Deaville | jfj@aber.ac.uk | Y Gwyddorau Cymdeithasol |
| Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg<br>Athrofa'r Gwyddorau Dynol | Joanne Walker | jnw@aber.ac.uk | Y Gwyddorau |
| Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS)* | Helen Lloyd | hll@aber.ac.uk | *Swyddog Ymchwil IBERS – pwynt cyswllt cyntaf tîm Datblygu Ymchwil IBERS* |

*Mae gan IBERS ei thîm Datblygu Ymchwil ei hun sy'n cydweithio'n agos â'r Swyddfa Ymchwil.

Mae croeso i ymchwilwyr hefyd gysylltu â'r Swyddog Datblygu Ymchwil ar gyfer eu disgyblaeth eu hunain, sef y Celfyddydau a'r Dyniaethau, y Gwyddorau Cymdeithasol neu'r Gwyddorau, ac mae croeso i unrhyw un yn unrhyw ran o'r Brifysgol sydd â diddordeb mewn Ymchwil Ewropeaidd neu gyfleoedd am Gronfeydd Strwythurol gysylltu'n uniongyrchol ag europe@aber.ac.uk.

Ar lefelau'r adrannau a'r athrofeydd bydd y Swyddfa Ymchwil hefyd yn:

- Cydweithio â'r Cyfarwyddwyr Ymchwil er mwyn
  - targedu cyfleoedd cyllid yn ôl cyfnod gyrfa, ac er mwyn
  - datblygu cynlluniau gweithredu strategaeth ymchwil ac effaith
- Cydlynu â'r adrannau Marchnata a Chyfathrebu a Materion Cyhoeddus i hybu ymchwil
- Cydweithio'n agos a'r Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori i ddod o hyd i gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth neu fanteisio'n fasnachol ar ymchwil, ac i hybu'r cyfleoedd hynny
- Cadw mewn cysylltiad â chydweithwyr cyfatebol mewn sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru, yn enwedig Prifysgol Bangor drwy'r Gynghrair Strategol, er mwyn ychwanegu gwerth i brosiectau a rhannu'r arfer gorau
- Lobïo cyllidwyr allanol i geisio cynnwys pynciau sydd o ddiddordeb strategol penodol i adrannau
- Cydweithio â'r Swyddfa Ryngwladol a'r tîm Polisi i ddatblygu prosiectau Ewropeaidd
- Cynorthwyo'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd (CDSAP) i ddarparu hyfforddiant ar Gyllid Ymchwil a Rhwydweithio Ymchwil i uwchraddedigion

Dyma rai prosiectau a gwasanaethau penodol eraill y gallai'r Swyddogion Datblygu Ymchwil weithio arnynt, a chynnig cymorth a chyngor arnynt:

- PIVOT – y gronfa ddata o gyfleoedd am gyllid
- Y broses foeseg a bod yn bresennol mewn paneli
- Cyfrifiadura Perfformiad Uchel (HPC) Cymru
- Y Pecyn Cymorth Ymchwil: www.aber.ac.uk/en/research/support/toolkit/
- Rheoli Data Ymchwil
- Cyfeiriadur Arbenigedd
- Gwasanaeth Cyswllt Lleol EURAXESS i helpu ymchwilwyr rhyngwladol i fwrw iddi â'u gwaith ymchwil cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyrraedd y Brifysgol

**Gary Reed,** Pennaeth y Swyddfa Ymchwil

# Glaswellt yn atal y lli

Mae gwaith ymchwil diweddar a gyhoeddwyd gan gasgliad o wyddonwyr planhigion o bob cwr o'r Deyrnas Gyfunol, yn dangos bod gan y croesiad glaswellt newydd a ddatblygwyd gan fridwyr planhigion yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) y potensial i atal llifogydd.



*Dr Mike Humphreys a'r glaswellt 'Festulolium'*

Astudiodd y gwyddonwyr o IBERS, a fu'n gweithio fel rhan o dîm o wyddonwyr a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC), yr amrywiaeth *Festulolium*, sef croesiad sy'n deillio o rygwellt parhaol (*Lolium perenne*) a pheiswellt y ddôl (*Festuca pratensis*). Pwrpas yr ymchwil oedd dangos y byddai cyfuno cyfradd twf a sefydliad cyflym y rhygwellt â systemau gwreiddiau hir y peiswellt yn gwella strwythur y pridd ac y gallai hyn leihau llifogydd.

Mewn arbrofion maes dros gyfnod o ddwy flynedd yn Nyfnaint dangosodd y tîm ymchwil bod y croesiad yn medru dal mwy o ddŵr yn y pridd nag sy'n bosibl gyda gweiriau amaethyddol eraill ar hyn o bryd. Mae hyn wedyn yn lleihau dŵr ffo felly byddai'n bosib lleihau llifogydd.

Mae angen astudiaethau manylach a mwy o amser i benderfynu ar botensial llawn *Festulolium* ar gyfer rheoli llifogydd, ond mae'r arwyddion yn addawol iawn.

Os bydd y canlyniadau ar raddfa fwy yn adlewyrchu'r canlyniadau a gafwyd yn yr astudiaethau peilot yna bydd technoleg cost-effeithiol iawn ar gael ar gyfer rheoli llifogydd.

www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/04/title-129770-cy.html

# Merlod Cymreig yn unigryw



*Merlod y Carneddau*

Mae ymchwilwyr IBERS wedi dangos bod y merlod gwyllt sy'n pori ar lethrau'r Carneddau yng ngogledd Eryri yn boblogaeth enetig unigryw y dylid ei gwarchod er mwyn sicrhau ei pharhad.

Dyma'r astudiaeth gyntaf o nodweddion genetig merlod gwyllt y gall eu cynefin fod dros 600 metr o uchder, ac fe'i gwnaed drwy ddefnyddio samplau a gasglwyd wrth gorlannu'r merlod uwchlaw pentref Llanfairfechan, sy'n digwydd bob blwyddyn.

Casglwyd samplau o rawn nifer o fridiau merlod cynhenid y DU; sef merlod Adran A Cymreig, merlod Adran D Cymreig, merlod Connemara a merlod yr Ucheldir a merlod y Carneddau yn ystod corlannu'r hydref. Tynnwyd DNA o'r rhawn a'i brofi gan wyddonwyr IBERS.

Mae'n hollbwysig gwarchod adnodd genetig merlod y Carneddau, ac yn arbennig felly yn sgil y lluwchfeydd eira diweddar pan fu farw llawer o'r anifeiliaid hyn, a niferoedd yn gostwng yn ddramatig.

Mae pwysau ariannol hefyd yn bygwth parhad merlod y Carneddau megis costau'n ymwneud â'r rheidrwydd cyfreithiol i gael pasbort i bob ceffyl yn y DU a rhoi microsglodyn i bob un.  Nid oes raid wrth ficrosglodion a phasbortau i boblogaethau y bernir eu bod yn 'brin' tra byddant yn byw'n rhydd.

Mae merlod y Carneddau'n rhan allweddol o ecoleg fynyddig Parc Cenedlaethol Eryri, gan eu bod yn rhan o gynllun pori sy'n cynnal y cynefin a ffefrir gan yr aderyn prin, y frân goesgoch.

www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/04/title-129704-cy.html

## O'r Cysgodion: Printiau Sydney Lee



*Sydney Lee*

Mae'r Athro Robert Meyrick o'r Ysgol Gelf wedi bod yn ymchwilio i waith un o beintwyr a gwneuthurwyr printiau mwyaf arwyddocaol Prydain, ond un a gafodd ychydig iawn o sylw, Sydney Lee RA (1866–1949), ac wedi curadu arddangosfa o'i waith.

Peintiwr oedd Lee yn anad dim, ac roedd yn adnabyddus yn ystod ei fywyd am ei brintiau o dirluniau, golygfeydd trefol ac adeiladau hanesyddol, mewn amrywiaeth hynod o feintiau a chyfryngau. O'r Colisëwm yn Rhufain i gopa'r Wyddfa a melinau gwynt Caint, teithiodd ar hyd a lled Prydain ac Ewrop yn chwilio am destunau epig a diddorol.

Ond er gwaetha'i lwyddiannau, ni pharodd y gydnabyddiaeth i'w waith. Ar ôl ei farw, gwasgarwyd cynnwys ei stiwdio, a does dim archifau o'i waith. Ac ers ei farw, hyd yma, ni chafodd ei waith ei arddangos na'i gyhoeddi.

Ffrwyth 20 mlynedd o ymchwil yw'r prosiect hwn, yn rhoi trefn ar brintiau a fu'n gorwedd yn angof mewn storfeydd amgueddfeydd neu mewn atigau preifat, ac ymgais i ail-greu bywyd drwy gelf, a chynnig gwerthfawrogiad o'r newydd o'r artist hwn ac o arferion hanesyddol ac arteffactau a fu unwaith yn bwysig.

Mae arddangosfa Robert Meyrick i'r Academi Gelf Frenhinol, a'r catalog â darluniau a nodiadau llawn sy'n cyd-fynd â hi, yn pwyso a mesur o'r diwedd gyfraniad Sydney Lee i gelf ym Mhrydain ac yn rhoi'r gronoleg gywir gyntaf o waith print Lee. I gael gwybod mwy am yr arddangosfa, ewch i: www.royalacademy.org.uk/exhibitions/the-tennant-gallery/from-the-shadows,457,RAL.html, ac i weld pedair ffilm fer o Robert Meyrick yn trafod Sydney Lee a'i waith, ewch i: www.royalacademy.org.uk/ra-magazine/blog/video-shining-a-light-on-sydney-lee,390,BAR.html

Roedd yr arddangosfa yn yr Academi Gelf Frenhinol tan 26 Mai a bydd i'w gweld yn Oriel yr Ysgol Gelf gydol yr haf – gweler tudalen 16 y rhifyn hwn o NEWYDDION Aber.

# Cyfnewid



Mae gennyf ryw ychydig o hiraeth wrth i mi ysgrifennu'r erthygl hon i *Cyfnewid*, gan y byddaf wedi gadael Prifysgol Aberystwyth erbyn i chi ddarllen hon er mwyn cymryd yr awenau mewn swydd newydd yn y Bwrdd Strategaeth Technoleg. Rwy'n edrych ymlaen at fwrw ati yn fy swydd newydd, ond bu fy mlynyddoedd yn y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori mor hapus fel na allaf ymadael heb ryw bwl bach o dristwch! Mae hynny'n enwedig o wir gan ei bod hi'n adeg mor gyffrous i'r Brifysgol, gyda'r Cylch Cynllunio yn rhoi i ni i gyd y cyfle i ddeall yn well sut mae'r Adrannau'n ymateb i dargedau'r Cynllun Strategol, a'r gwaith y maen nhw angen i ni yn yr adrannau gwasanaeth proffesiynol ei wneud i'w helpu i ddwyn y maen i'r wal. Roedd hi'n ddiddorol iawn gweld cynifer o'r Adrannau wedi nodi cyrsiau Datblygu Proffesiynol Parhaus fel un maes yr oeddent am ei ddatblygu; dyma un maes y mae Masnacheiddio ac Ymgynghori yn ei gynorthwyo ac y bydd yn dal ati i'w gynorthwyo, gan addasu'r hyn rydym yn ei gynnig wrth i'r Adrannau roi gwybod i ni beth fyddai'n fwyaf defnyddiol iddyn nhw.

Yn y rhifyn hwn mae'n bleser mawr gennym gyhoeddi bod Carla Humphrey wedi'i phenodi'n Swyddog Contractau, yn cymryd yr awenau ar ôl i Catrin Lewis adael yn ddiweddar i ymuno â'r Swyddfa Ryngwladol, ac rydym yn dymuno'n dda i Adrian Harvey sy'n cychwyn ar swydd newydd fel Rheolwr un o'r Athrofeydd. Mae'n bleser hefyd llongyfarch Rhian Hayward ar ei phenodi i Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru.

Wrth gloi carwn dynnu sylw fy nghyd-weithwyr academaidd at y cyfle i ddenu cyllid A4B i brosiectau cydweithio â busnesau. Mae A4B yn tynnu at flwyddyn derfynol eu cylch cyllido presennol, ac maent yn awyddus i fod yn fwy hyblyg wrth feddwl am y prosiectau maent yn eu hariannu er mwyn arloesi â syniadau newydd cyn iddynt wneud cais i WEFO am fwy o Gronfeydd Strwythurol. Os oes gennych brosiectau sy'n golygu cydweithio â chwmnïau ac os hoffech drafod a allent fod yn addas i gael cyllid A4B, cysylltwch â James Hudson (jmh) neu Rhian Hayward (rih) yn y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori yn y lle cyntaf.

**Liz Flint,** Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori

## Ennyn Effaith

Mae Prifysgol Aberystwyth ac IBERS wedi llwyddo i sicrhau cyfanswm o £200,000 o gronfa 'Sparking Impact' y BBSRC i gefnogi amryw helaeth o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth a masnacheiddio.

Mae'r ffrwd newydd hon o gyllid yn gyfle gwych i gyd-weithwyr sbarduno effaith gwaith ymchwil sydd eisoes wedi cael cyllid gan y BBSRC.

Bwriedir i'r cyllid hwn hybu syniadau yn eu camau cyntaf sydd â photensial masnachol – ymhlith y gweithgareddau cymwys bydd: datblygu ffyrdd o helpu darpar ddefnyddwyr i ddeall manteision y syniadau neu'r dechnoleg, cynnal ymchwil i'r farchnad a chasglu gwybodaeth am y farchnad.

Gwahoddir cyllid sefydlu gwerth hyd at £20,000 fesul prosiect drwy broses ymgeisio gystadleuol ac fe'i dyfernir gan Bwyllgor Ennyn Effaith Aberystwyth.

Mae croeso i ymchwilwyr gysylltu â James Hudson jmh@aber.ac.uk neu Jamie Newbold cjn@aber.ac.uk i drafod yn anffurfiol cyn cyhoeddi'r alwad ffurfiol.

## Rhwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth

Roedd yn bleser gan Rwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth groesawu Dewi Jones, Prif Weithredwr Innovis Cyf i siarad yn nigwyddiad y gwanwyn ar 29 Ebrill. Yn un o gwmnïau deillio'r Brifysgol un mlynedd ar ddeg yn ôl, mae gan Innovis bellach ganolfannau ledled y DU a dyma'r cwmni cyflenwi technolegau bridio mwyaf blaenllaw i ddiwydiant defaid y DU.

Bu Dewi'n sôn am yr heriau y mae'r cwmni wedi'u hwynebu, ynghyd â'r hyn y mae wedi'i gyflawni ers iddo annerch y rhwydwaith gyntaf yn 2008, gan gynnwys datblygu gweledigaeth glir a strategaeth ar gyfer twf y cwmni, sydd wedi tyfu o fod yn fusnes rhanbarthol i fod yn gwmni gyda'r gorau yn y byd. Cyfeiriodd yn ei gyflwyniad at bwysigrwydd arloesi a rôl ymchwil a datblygu, a chyfeiriodd hefyd at enghreifftiau o brosiectau cyfnewid gwybodaeth y mae ymchwilwyr o IBERS yn gysylltiedig â hwy.

Ymhlith y gwesteion ar y noson roedd Jake Stainer, myfyriwr Marchnata a Sbaeneg ar ei ail flwyddyn, a chyhoeddodd yr Is-Ganghellor mai ef oedd enillydd cystadleuaeth gyntaf gwobr CaisDyfeisio.

I gael gwybod am ddigwyddiadau'r Rhwydwaith Busnes yn y dyfodol, cysylltwch â business@aber.ac.uk



*Dewi Jones, Prif Weithredwr Innvois Cyf a'r Athro April McMahon, yr Is-Ganghellor*

# Cyfle newydd cyffrous i fyfyrwyr entrepreneuraidd

Mae gan y Brifysgol sawl cynllun, rhaglen a digwyddiad i gynorthwyo myfyrwyr i sefydlu mentrau newydd ar ôl graddio – rhywbeth sy'n digwydd fwyfwy yn y farchnad swyddi i raddedigion.

Ond mae myfyrwyr yn Aber hefyd a fyddai'n hoffi cael blas ar redeg busnes, ochr yn ochr â'u hastudiaethau, naill ai er mwyn paratoi at redeg busnes ar ôl graddio neu i gael profiad dysgu rhagorol.

O siarad â'r myfyrwyr, mae Rheolwr Menter y Brifysgol, Tony Orme, wedi nodi'r awydd hwn ac wedi sefydlu Rhaglen Cychwyn Busnes i Bobl Ifanc yma yn Aberystwyth.

Aberystwyth yw'r ail Brifysgol yng Nghymru (ein partner cynghreiriol Prifysgol Bangor oedd y gyntaf) i fabwysiadu'r rhaglen newydd sbon hon sy'n rhan o'r cynllun Menter Pobl Ifanc, sy'n uchel iawn ei barch ac wedi hen ymsefydlu.

Caiff grwpiau o israddedigion a chanddynt syniadau busnes yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ffurfio busnesau go iawn ac i redeg y busnesau hynny am 12 mis gyda chefnogaeth lawn gan gynllun Menter Pobl Ifanc, Rheolwr Menter y Brifysgol a'r sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, gan gynnwys Antur Teifi, yr asiantaeth fenter leol.

Hyd yma, yn sgil digwyddiad i lansio'r cynllun, lle roedd 30 o fyfyrwyr yn bresennol, sefydlwyd dau dîm Menter Pobl Ifanc.

Yn un o'r timau mae nifer o israddedigion Cyfrifiadureg sy'n defnyddio'r rhaglen i sefydlu gwasanaeth 'cyfleusterau' arloesol ar y we ac mae'r llall yn edrych ar hyrwyddo gwaith artistiaid sy'n fyfyrwyr.

Bydd pobl fusnes leol yn cynorthwyo pob grŵp o fyfyrwyr dros y flwyddyn nesaf i ddatblygu eu syniadau, i greu tîm rheoli cryf ac i fasnachu yn yr ardal leol.

Cynllun peilot yw hwn a'r bwriad yw cyflwyno'r rhaglen i ragor o dimau dros y blynyddoedd nesaf.

I gael gwybod mwy am y Rhaglen Cychwyn Busnes i Bobl Ifanc cysylltwch â Tony Orme, y Rheolwr Menter: awo@aber.ac.uk - www.aber.ac.uk/crisalis

# Staff newydd



Mae un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth **Carla Humphreys** wedi ymuno â'r Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori fel Swyddog Contractau. Bydd Carla'n gweithio ochr yn ochr â Chris Heidt ac ymhlith ei dyletswyddau bydd drafftio, trafod ac adolygu contractau ledled y Brifysgol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Chytundebau Cyfrinachedd, Cytundebau Trosglwyddo Deunydd, Cytundebau Cydweithio ac Is-gontractau.

Ar ôl graddio o Gwrs Ymarfer Cyfreithiol Aberystwyth, cafodd Carla brofiad masnachol gyda chwmni telemateg yn y Canolbarth. Yn rhan o'r swydd hon, roedd hi'n gyfrifol am weithredu systemau ansawdd yn y busnes



Mae **Non Lavaro** wedi ei secondio i swydd Swyddog Sgiliau a Menter, yn rhan o dîm canolfan Sgiliau CADARN. Graddiodd Non mewn Astudiaethau Busnes yn Aberystwyth, ac mae ei chefndir yn cynnwys gweithio i ganolfan ymchwil ym Mhrifysgol Newcastle, Awstralia yn ogystal â phrofiad yn agosach i gartref yn Swyddfa Ymchwil Aberystwyth. Yn rhan allweddol o swydd Non mae cydgysylltu â chyd-weithwyr yn y Brifysgol yn ogystal ag â sefydliadau allanol i ddod o hyd i gyfleoedd i ddatblygu DPP.

# Cyngor i'r Gweinidog

Penodwyd Dr Rhian Hayward, aelod o'r tîm Trosglwyddo Technoleg yn y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori, yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru (WIDAB) gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

Mae WIDAB yn cynghori'r Gweinidog ar gymorth ariannol i ddiwydiant.

Bu Dr Hayward yn trafod ei phenodiad, a dywedodd: "Rwy'n falch iawn o fod wedi cael fy newis gan y Gweinidog i eistedd ar y Bwrdd hwn. Mae gweithgarwch aruthrol yn digwydd ar hyn o bryd yn Llywodraeth Cymru i hwyluso arloesi yng Nghymru a buddsoddi yn y rhanbarth.

"Mae WIDAB yn chwarae rhan bwysig wrth gynghori Llywodraeth Cymru ar gymorth ariannol i gwmnïau ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr. Ceir ceisiadau'n aml gan sefydliadau rhyngwladol yn ogystal â chwmnïau 'angor' cenedlaethol ac mae'r prosiectau a argymhellir yn allweddol i ddiogelu a chreu swyddi drwy ddenu'r cwmnïau hyn i Gymru.

"Fel aelod o WIDAB byddaf yn cael y cyfle i ryngweithio â holl Dimau Sector Llywodraeth Cymru sydd â'r dasg o ddenu busnes i'n rhanbarth. Edrychaf ymlaen at y rhyngweithio ac at ddod â safbwynt prifysgol, yn ogystal â'm profiad masnachol, at y Bwrdd."



*Rhian Hayward*

**GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO AC YMGYNGHORI**

Am wybodaeth neu gefnogaeth yn ymwneud â chyfleoedd cyfnewid gwybodaeth cysylltwch â ni, neu dewch i'n swyddfeydd ar lawr cyntaf y Ganolfan Ddelweddu.

Gwasanaeth Ymholiadau Canolog GMY: ccservices@aber.ac.uk - est 2385 www.aber.ac.uk/ccs

ERTHYGL NODWEDD

# Meithrin cyswllt â'r byd

Mae'r Athro Richard Marggraf Turley, Athro Ymgysylltu â Dychymyg y Cyhoedd, a'r Athro Nigel Scollan, Athro Ymgysylltu â Gwyddoniaeth, yn ystyried y dasg sy'n eu hwynebu ac yn trafod un o'r ffyrdd cyffrous y maent yn bwriadu gwneud y campws yn lle haws cymryd rhan ynddo.

Ar adeg pan fo cyfyngiadau ariannol ar Addysg Uwch, mae "Beth yw swyddogaeth prifysgol?" yn gwestiwn mwy dwys nag erioed. Yma yn y Brifysgol, credwn fod rhan bwysig o'r ateb yn y berthynas rhwng sefydliad academaidd a'r gymuned sy'n ei gefnogi ac yn ei feithrin. Ac mae "ymgysylltu â'r cyhoedd" yn bwysig yn hynny o beth. Ein nod wrth ymgysylltu â phobl yw helpu'r bobl hynny i deimlo y gallant archwilio potensial sydd heb ei wireddu a heb ei gyffwrdd. Neu, mewn geiriau eraill, mae'n fan cyfarfod deallusol, yn draffig dwyffordd, yn gyfarfyddiad sy'n newid byd.

A ninnau'n athrawon ymgysylltu newydd yn y Brifysgol, ein gwaith – a hwnnw'n waith braf iawn – yw ysbrydoli pobl o bob cefndir. Mae'r genhadaeth hon yr un mor berthnasol i'r rhai nad ydynt yn fyfyrwyr ag i drwch traddodiadol y myfyrwyr. Fe ddywed unrhyw ymwelydd ag Aberystwyth wrthych nad oes unman yn debyg i'r dref hynod hon. Mae bob amser yn llwyddo i fynd y tu hwnt i rethreg dwristaidd ac yn cynnig profiad byw, llawn dychymyg sy'n wirioneddol unigryw a bythgofiadwy. Ac yn rhan allweddol o'r hud hwnnw, fel y bydd pob ymwelydd yn ei deimlo, mae'r cwlwm rhwng y gymuned a'r brifysgol.

Cawsom ein penodi'n ddiweddar yn athrawon ymgysylltu, ac mae hynny'n tystio i ymroddiad y Brifysgol i wneud y campws yn lle hyd yn oed yn haws cymryd rhan ynddo. Ydy, mae'n ganolfan dysg, ac ie, dyma un o'r prifysgolion uchaf ei bri yn y DU, ac un o'r hynaf hefyd (galwyd hi'n ddiweddar yn "Potteraidd" yn un o bapurau newydd yr Unol Daleithiau). Ond mae'n nod hefyd gennym weld y Brifysgol yn lle sy'n cynnig ysbrydoliaeth ac anogaeth ehangach. Arferai prifysgolion eu hystyried eu hunain yn storfeydd gwybodaeth y gellid ei "throsglwyddo" i'r cyhoedd, a hwnnw'n drosglwyddo unffordd. Mae Prifysgol Aberystwyth, a hithau'n sefydliad addysg uwch modern, wedi ymroi i feithrin cysylltiad dwyffordd, proses sy'n tynnu ei nerth a'i hegni o sgwrsio a chydweithio, ac o gydberchnogaeth. Mae'r gwerthoedd hyn wrth wraidd yr hyn yr ydym am fod.

Yn sgil hyn oll, mae'n bleser gennym gyhoeddi y cynhelir digwyddiad cyffrous ar y campws yn arbennig ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr ag Aberystwyth, sef *Mynediad am Ddim*. Cynhelir y digwyddiad ar 22 Mehefin, o 10 y bore tan 3 y prynhawn, ac estynnir gwahoddiad VIP i bawb yn y dref a'r cyffiniau, ac i bawb sy'n ymweld neu yma ar eu gwyliau. Bydd cyfle i bawb o bob oedran, beth bynnag fo'u diddordebau, ddod i adnabod y Brifysgol a'r staff yn well, a chymryd rhan mewn



*Yr Athro Nigel Scollan (ar y chwith) a'r Athro Richard Marggraf Turley*



amryw o weithgareddau ymarferol, i'w diddanu a'u haddysgu.

Ymhlith yr uchafbwyntiau bydd bwydo llosgfynydd, peintio ac animeiddio, helfa drysor yn ein gerddi botaneg, cyflwyno'ch rhaglen deledu eich hun, roboteg ar lan y môr yn "Labordy'r Traeth", blasu danteithion blasus, profi diffyg synhwyraidd yn ein labordai seicoleg, ac archwilio'r offer gwyddonol diweddaraf. Bydd amryw o atyniadau cerddorol hefyd, gan gynnwys ensemblau ysgolion lleol, a lluniaeth am bris rhesymol yn ein cyfleusterau croeso. Darperir cludiant dwyffordd am ddim ar gyfer teithiau "oddi ar gampws Penglais". Bydd gweithgareddau'r diwrnod yn cyd-ddigwydd â gŵyl boblogaidd Hwyl Haf Canolfan y Celfyddydau.

A ninnau'n awyddus i feithrin cyswllt, ein gobaith yw y bydd cynifer o bobl â phosib yn dod i *Mynediad am Ddim* ac yn darganfod – neu efallai'n ailddarganfod – ein campws gwych. Bydd rhywbeth at ddant pawb ar 22 Mehefin, boed yn farddoniaeth arbrofol neu'n offer dilyniannau DNA, neu'n ddim ond tro yng ngerddi'r Plas a phaned o de.



NEWYDDION MYFYRWYR

# Myfyrwyr yn ffoi i Ffrainc

Trefnodd RAG Aber ddigwyddiad 'dianc' i godi arian drwy godi bawd, a llwyddwyd i godi dros £2,000 i elusen a theithio 1,426 o filltiroedd.



*Myfyrwyr ar ddechrau Her Ddianc RAG Aber. Llun drwy ganiatâd caredig y Cambrian News, www.cambrian-news.co.uk*

Chwe thîm a dderbyniodd yr her, gan fentro o Ganolfan y Celfyddydau, Aberystwyth fore dydd Sadwrn 23 Mawrth. Roedd gan bob tîm 36 awr i deithio mor bell ag y gallent a hynny heb wario arian ar gludiant, gan ddibynnu ar eu dawn dweud i ddwyn perswâd ar bobl i roi pàs a thocynnau am ddim iddynt.

'Blythberg' oedd y tîm buddugol, wedi'i enwi ar ôl ei ddau aelod, sef Hannah Blythen, myfyrwraig Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, a Jacob Kreyberg, myfyriwr y Gyfraith a Throseddeg, a gyrhaeddodd Vendome, Ffrainc, erbyn dydd Sul 24 Mawrth ar ôl taith 438 o filltiroedd o Aberystwyth.

Llwyddodd y timoedd eraill i gyrraedd Lille, Dover, Portsmouth, Llundain a Lerpwl.

Cododd yr her arian i'r elusen datblygu rhyngwladol Practical Action, sy'n gweithio ochr yn ochr â rhai o bobl dlotaf y byd, ac yn helpu i liniaru tlodi yn y byd sy'n datblygu drwy ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd arloesol.

Hyd yn hyn eleni, mae aelodau'r RAG wedi codi rhyw £6,000 i elusennau gan gynnwys Cymdeithas Gofal Ceredigion, Plant mewn Angen, Apêl y Pabi Coch a Whizz Kids. Ym mis Awst bydd tîm o bedwar myfyriwr ar ddeg o Aberystwyth yn dilyn llwybr yr Incas i Machu Picchu i godi arian i Childreach International.

## Canmoliaeth yn Senedd San Steffan i'r Arolwg o Dai Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth, wedi cael canmoliaeth yn Senedd San Steffan ar ôl iddi gyhoeddi Adroddiad Arolwg o Dai Myfyrwyr 2012, sy'n ceisio codi safon tai myfyrwyr yn Aberystwyth ac addysgu myfyrwyr am eu hawliau fel tenantiaid. Cydnabu'r Senedd y gwaith y mae'r Brifysgol wedi'i wneud, ac y mae'n dal i'w wneud, i sicrhau bod digon o dai fforddiadwy ar gael i bob myfyriwr yn Aberystwyth, a'r rheiny'n dai sy'n cyrraedd safon foddhaol.

## Ymryson dadlau blynyddol llwyddiannus

Cynhaliwyd ymryson dadlau blynyddol Aberystwyth (sef cystadleuaeth "Baillie Gifford Agored Aber") yn yr Hen Goleg yn ystod penwythnos olaf mis Ebrill.

Daeth tua chant o gyfranogwyr a beirniaid o brifysgolion o bob cwr o'r DU i'r ymryson a chystadlu mewn pedair rownd o ddadlau cystadleuol: mwy nag sydd wedi dod i'r digwyddiad hwn erioed o'r blaen. Cynhaliwyd y dadlau yn y modd "Seneddol Prydeinig", sef bod pedwar tîm o ddau siaradwr yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Agorwyd yr achlysur gan yr Is-Ganghellor, yr Athro April McMahon. Hyd y gŵyr yr Undeb Dadlau, dyma'r tro cyntaf yn ei hanes, mewn canrif, i Is-Ganghellor y Brifysgol fod yn bresennol mewn digwyddiad o'r fath – achlysur a nodwyd drwy anrhydeddu'r Athro McMahon yn Aelod er Anrhydedd am Oes.

# Digwyddiadau ac Achredu Cydraddoldeb

Gan Olymbia Petrou, Cynghorydd Cydraddoldeb, opp@aber.ac.uk , ffôn 8598

**IONAWR 2013:**

- Cododd y Brifysgol 106 o safleoedd ym Mynegai Gweithleoedd Stonewall o safle rhif 305 i rif 199. Mae Stonewall Cymru wedi ein llongyfarch ar y llwyddiant hwnnw, ac maent yn ein hannog i fynd amdani a chyrraedd y 100 Uchaf erbyn y flwyddyn nesaf.

**CHWEFROR 2013:**

- Dangoswyd y ffilm *Call Me Kuchu* yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth, yn ymdrin â'r erlid sy'n digwydd yn erbyn pobl hoyw a lesbiaidd yn Uganda. Cynhaliwyd y digwyddiad i gyd-fynd â Mis Hanes LGBT. Cymerodd y rhwydwaith LGBT ran mewn panel holi ac ateb a oedd yn cynnwys Bisi Alimi, ymgyrchydd hawliau dynol ac LGBT o Nigeria. Cafodd pawb noson ddiddorol iawn.
- Bu'r staff a'r myfyrwyr yn gwirfoddoli ac yn cymryd rhan mewn digwyddiad amlddiwylliannol 'Cofleidio Amrywiaeth yn ein Cymuned' yng Nghanolfan y Morlan a drefnwyd gan Mind Cymru. Cynhaliwyd prynhawn o brofiadau diwylliannol, gyda bwydydd gwych o India a Chymru, gweithdai a pherfformiadau dawnsio traddodiadol o Gymru.
- Llwyddodd y Brifysgol i fodloni meini prawf achredu'r Tic Dwbl – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl. Dyma'r ddegfed flwyddyn y mae'r cynllun yn rhedeg.

**MAWRTH 2013:**

- I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod trefnwyd llawer o ddigwyddiadau, gan gynnwys ail-lansio Bord gron y Menywod, darlleniadau agored gan yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, sesiwn ymarfer corff i fenywod yn y Ganolfan Chwaraeon, trafodaeth ar fenywod mewn gwleidyddiaeth gan yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Digwyddiad Mentora Menywod Ifanc a drefnwyd gan yr adran Ehangu Mynediad a Chynhwysiant Cymdeithasol i gynnig help i fenywod ifanc lleol rhwng 12 ac 16 oed drwy ddarparu mentora a modelau rôl iddynt. Diolch i bawb a helpodd i drefnu'r rhain a'r digwyddiadau diddorol eraill, yn enwedig i'r Adran Seicoleg sy'n helpu i gydlynu'r dathliad hwn.

ADNODDAU DYNOL

## Rhaglen Arweinwyr Ymchwil Uwch

Mae'r Is-Ganghellor wedi enwebu pum aelod o'r staff i gymryd rhan yn y Rhaglen Arweinwyr Ymchwil Uwch, a ddarperir ar y cyd gan y Sefydliad Arweinyddiaeth Addysg Uwch a Llywodraeth Cymru.

Bydd yr Athrawon Heike Roms, Mark Whitehead, Jamie Newbold, Milja Kurki a'r Dr Joanne Hudson yn cynrychioli'r Brifysgol yn y digwyddiad ym mis Gorffennaf.

Bwriedir i'r rhaglen roi cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan ddatblygu sgiliau arwain strategol pellach, dod i ddeall yn iawn bolisïau ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol sy'n datblygu a'r tirwedd cyllido, ac edrych ar sut y mae hyn yn berthnasol i strategaethau'r Brifysgol.

## Gweithdrefn Gwyno Newydd

Ar ôl cynnal trafodaethau â'r undebau llafur cydnabyddedig a chytundeb yn sgil hynny gan Gyngor a Phwyllgor Datblygu Proffesiynol a Staffio'r Brifysgol, cytunwyd ar weithdrefn gwyno newydd i holl staff y Brifysgol.

Mae'r weithdrefn ar ei newydd wedd yn rhoi fframwaith newydd ar gyfer cwynion gan BOB aelod o'r staff ac mae'n cynnwys rhagor o ganllawiau ar gyfryngu, datrys anffurfiol, a'r cymorth sydd ar gael i staff er mwyn datrys cwynion.

Os hoffech gael gwybod mwy, mae'r weithdrefn ddiwygiedig ar gael ar wefan Adnoddau Dynol (www.aber.ac.uk/cy/hr/), neu mae croeso i chi gysylltu â'ch tîm Adnoddau Dynol. Bydd y weithdrefn hon yn rhan o gytundeb ar y cyd â'r undebau llafur, a fydd wedi'i gwblhau maes o law.

## Hawl i Weithio yn y DU

Efallai y bydd staff mewn rhai adrannau eisoes wedi cael cais gan Adnoddau Dynol am dystiolaeth fod ganddynt Hawl i Weithio yn y DU a byddwn yn cysylltu cyn hir â'r rhai hynny nad ydynt wedi clywed oddi wrthym eto.

Bydd rhai pobl yn gweld hynny'n rhyfedd, yn enwedig y rhai hynny sy'n gweithio yma ers blynyddoedd lawer. Ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol Asiantaeth Ffiniau'r DU. Bydd copi naill ai o basbort neu dystysgrif geni'n ddigon a diolch i'r rhai hynny sydd eisoes wedi darparu tystysgrifau.

Gofynnwn i chi ddiweddaru'ch manylion personol ar yr un pryd – gallwch naill ai wneud hynny eich hunan yn www.aber.ac.uk/cy/hr/ neu drwy ddychwelyd y ffurflen a anfonwyd atoch. Bydd hyn yn fodd o sicrhau bod y wybodaeth sydd gennym yn gywir ac y gallwn gael gafael ar rywun ar eich rhan mewn argyfwng.

# Y gwasanaeth gyrfaoedd yn ennill nod ansawdd

Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol wedi ennill y nod ansawdd cenedlaethol i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd – safon y matrics.

Defnyddiodd yr asesydd matrics cofrestredig amryw o ddulliau i gasglu tystiolaeth o amryw o ffynonellau: myfyrwyr, graddedigion, cyd-weithwyr academaidd, cyflogwyr a phartneriaid allanol, staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd, a thystiolaeth o fannau megis y wefan, gweithdrefnau, data monitro perfformiad, dogfennau cynllunio ac adroddiadau adborth.

Cafodd y Gwasanaeth Gyrfaoedd ei achredu ar unwaith i gydnabod y safonau rhagorol a gynhelir drwy'r adran gyfan yn ei gwaith gyda myfyrwyr, graddedigion, cyd-weithwyr a chyflogwyr.

Nodwyd yn adroddiad yr asesydd: "Mae'r tîm yn brofiadol iawn ac yn hynod ymroddedig i helpu myfyrwyr i symud yn eu blaenau, ac mae'n awyddus i ddod yn fwyfwy amlwg yn y Brifysgol. Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd wedi creu ystod ragorol o bartneriaethau a rhwydweithiau ac mae'n parhau i feithrin y rhain. Mae cysylltiadau mewnol â gwahanol elfennau'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr wedi hen ymsefydlu a thrwy wella'r ddeialog ag adrannau academaidd mae'r Gwasanaeth yn llwyddo i feithrin partneriaethau newydd ac iddynt bwrpas gwirioneddol."

POBL ABER

# Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae **Dr Eleri Pryse**, Darllenydd a Dirprwy Gyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu yr Athrofa Mathemateg a Ffiseg, wedi ei phenodi'n Gadeirydd Bwrdd Golygyddol *Gwerddon*, yr e-gyfnodolyn academaidd Cymraeg a ariennir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, o 1 Awst 2013.

Cyhoeddwyd *Gwerddon* gyntaf yn 2007, a hyd yma cafwyd 14 rhifyn ac mae 5 ar y gweill yn 2013. Mae 16 aelod o'r Bwrdd Golygyddol, a'r rheiny'n cynrychioli sefydliadau addysg uwch. I gael gwybod mwy, ewch i www.gwerddon.org.



*Dr Eleri Pryse, Cadeirydd newydd Bwrdd Golygyddol Gwerddon, gyda'r Cadeirydd sy'n ymadael, Dr Hefin Jones.*

# Y Gyngres Ryngwladol ar Astudiaethau Canoloesol

Mae'r **Athro Björn Weiler**, o'r Adran Hanes a Hanes Cymru, a chyd-gyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar yn Aberystwyth a Bangor, wedi ymuno â phwyllgor rhaglennu cynhadledd fwyaf Ewrop ar y dyniaethau. Bydd Björn yn cydlynu'r llinyn thematig arbennig ar 'Ymerodraeth' yn y Gyngres Ryngwladol ar Astudiaethau Canoloesol, a gynhelir yn Leeds yn 2014. Ymhlith y gweithgareddau bydd sesiynau, cyfarfodydd bord gron a thrafodaethau am rôl ymsefydlwyr, masnachwyr, rheolwyr, ac eraill o ran creu a llunio ymerodraeth; teipoleg a phrofiad ymerodraeth; traddodiadau a chynrychioliadau ymerodraeth; ond hefyd ddylanwad cysyniadau ac arferion canoloesol ymerodraethau ar eu holynwyr ôl-ganoloesol.

# Iechyd gwledig a lles cymunedol



Mae **Mr Manoj Kulshrestha** wedi'i benodi'n Ddarllenydd cyntaf Cymru mewn Iechyd Gwledig a Lles Cymunedol.

Mae'r penodiad, sy'n deillio o bartneriaeth unigryw rhwng Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Bwrdd Iechyd Hywel dda yn cydnabod y cyfle unigryw sydd gan y GIC a'r prifysgolion lleol yng Ngorllewin Cymru i weithio'n strategol mewn partneriaeth ac ailddiffinio sut y gall polisïau a gwasanaethau wella iechyd a lles pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Bydd y swydd yn arwain gwaith ymchwil a datblygu polisïau ar gyfer y prifysgolion sy'n bartneriaid â Bwrdd Iechyd Hywel Dda mewn pedwar maes allweddol: Cydlyniant a chyswllt â'r gymuned; Rôl iechyd a lles mewn adfywio gwledig; Gwella mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig; Integreiddio gwasanaethau a datblygu'r gweithlu/modelau.

Dechreuodd Mr Kulshrestha, Offthalmolegydd Ymgynghorol blaenllaw sy'n gweithio yn Ysbyty Bronglais a Meddygfa Ffordd y Gogledd yn Aberystwyth, yn y swydd ar 1 Mai 2013 am gyfnod cychwynnol o 12 mis.

www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2013/04/title-128673-cy.html

# Tyst arbenigol

Ym mis Chwefror, ymddangosodd yr **Athro Mike Foley** o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol fel tyst arbenigol gerbron Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin. Bu'n cyfrannu at wrandawiad y Pwyllgor ar bwnc llosg swyddogaeth a phwerau'r Prif Weinidog – thema y mae wedi ysgrifennu'n helaeth yn ei chylch.

Mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn edrych ar y ffordd y mae Prif Weinidogion y DU yn dehongli ac yn arfer eu swyddogaeth mewn cyd-destun gwleidyddol a chyfansoddiadol sy'n newid. Mae diddordeb arbennig yn arddull cynyddol arlywyddol y swydd a sut y mae hynny'n gysylltiedig â phwerau uchelfreiniol ac atebolrwydd gwleidyddol. Roedd yr Athro Foley'n rhoi tystiolaeth yn sgil ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor yn 2011.

## Gwahoddiad i drafod Gwybodaeth Gyfreithiol Ryngwladol

Ym mis Chwefror, bu **Lillian Stevenson**, Rheolwr Gwasanaethau Academaidd a Llyfrgellydd y Gyfraith, yn cynrychioli Cymdeithas Llyfrgellwyr y Gyfraith, Prydain ac Iwerddon (BIALL) yn y Sefydliad Astudio ar y Cyd a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Melbourne, Awstralia.

Yn y prif gyflwyniad, amlygodd Michael Kirby, y Barnwr Uchel Lys hiraf ei wasanaeth yn Awstralia (sydd bellach wedi ymddeol) y rhan a chwaraeodd Awstralia i sefydlu un o'r Sefydliadau Gwybodaeth Gyfreithiol cyntaf (Sefydliad Gwybodaeth Gyfreithiol Awstralasia [AustLII]) sy'n darparu mynediad at wybodaeth gyfreithiol yn rhad ac am ddim. Mae llawer o wledydd wedi dilyn eu hesiampl, gan gynnwys y Deyrnas Unedig ac Iwerddon (Sefydliad Gwybodaeth Gyfreithiol Prydain ac Iwerddon [BAILII]).

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi sefydlu cysylltiadau â Phrifysgol Melbourne, a bu modd i Lillian drafod y posibilrwydd o ddarparu cymorth llyfrgellyddol ar gyfer prosiect ymchwil cydweithredol rhyngwladol gyda'r Athro Caron Beaton-Wells o Ysgol y Gyfraith y sefydliad hwnnw. Mae'r Athro Beaton-Wells yn gweithio gyda'r Athro Chris Harding o Adran y Gyfraith a Throseddeg ar gynnig ymchwil ar griminaleiddio cartelau busnes.

# Penodiad

Y SWYDDFA RYNGWLADOL



Penodwyd **Amarjeet Mutneja** yn Swyddog Rhyngwladol. Ar ôl graddio ag MBA o UWIC yn 2010, bu Amarjeet yn gweithio yn sector addysg uwch y DU yn helpu myfyrwyr eraill i ddod yma i astudio. Cafodd Amarjeet ei eni a'i fagu yn India, a bydd ei swydd yma ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ymwneud yn bennaf â De Asia.

# Aber i Amsterdam

aber to amsterdam

700 milltir, 6 gwlad, 5 diwrnod. Fyddech chi ddim yn synnu gweld yr amserlen hon mewn ras fesul cam fyd-enwog fel y Tour de France. Ond dyna'n union fydd yr her i dri aelod o staff y Brifysgol yr haf yma wrth iddyn nhw feicio o Aberystwyth i Amsterdam.

Ar y daith bydd Pennaeth y Gwasanaethau Preswyl, Tom Bates; Rheolwr Athrofa Rheolaeth, y Gyfraith a Gwyddor Gwybodaeth, Adrian Harvey; Dafydd Davies o'r Gwasanaethau Dylunio, Gwe ac Argraffu, ynghyd â saith beiciwr amatur arall, gan gynnwys Paul Rowland, mab yr Athro Diane Rowland (y Gyfraith a Throseddeg) a'r uwch darlithydd Cyfrifiadureg a ymddeolodd yn ddiweddar, Jem Rowland.

Bydd y grŵp yn cychwyn ar 22 Mehefin, ac yn treulio tua 12 awr bob dydd ar eu beiciau wrth iddyn nhw feicio 140 milltir bob dydd ar gyfartaledd ar draws gogledd Ewrop, drwy Gymru, Lloegr, Ffrainc, Gwlad Belg, yr Almaen a'r Iseldiroedd ar eu taith fawreddog.

Eu nod fydd codi swm enfawr o arian i'r pedair elusen a ddewiswyd gan y tîm – Ambiwlans Awyr Cymru, Tŷ Hafan, Ambiwlans Awyr Great Western a Macmillan.

Wrth drafod y marathon o Aberystwyth i Amsterdam, dywedodd y Dirprwy Is-Ganghellor yr Athro Martin Jones: "Mae hyn yn dipyn o orchest. Mae'r daith yn cynnwys rhai o lwybrau beicio hanesyddol Ewrop ac yn dilyn trywydd olwynion rhai o gewri'r gamp. Mae'r digwyddiad hwn yn un pwysig i'r coleg a'r dref. Fel un o brif noddwyr y digwyddiad, bydd y Brifysgol yn rhoi crysau seiclo yn rhodd i'r beicwyr sy'n cymryd rhan. Hoffwn longyfarch y tîm ar drefnu'r digwyddiad, am greu gwefan ardderchog i'w hyrwyddo, ac am osod safon uchel ar gyfer gwaith elusennol yng Nghymru a'r tu hwnt".

I gael gwybod mwy am y daith a sut i roi arian, ac i weld lluniau, fideos a'r newyddion diweddaraf, ewch i www.abertoamsterdam.co.uk.



*(o'r chwith i'r dde) Beicwyr Aber i Amsterdam: Paul Rowland, Tom Bates, Adrian Harvey a Dafydd Davies.*

# Awyrblymio dros achos da

Yn ddiweddar, bu Michelle Barchus, o dîm gweinyddu myfyrwyr IBERS, yn awyrblymio'n rhydd o 13,000 troedfedd i godi arian at achos da.

Cododd Michelle £1,057 i Mind (www.mind.org.uk), elusen sy'n ceisio hybu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a hyrwyddo iechyd meddwl gwell i bawb.

Dywedodd Michelle: "Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb a'm noddodd. Roedd y profiad yn un hynod gyffrous a bythgofiadwy."



*Michelle Barchus*

# Hybu byw'n iach

Mae'r adran Cymorth i Fyfyrwyr, sy'n cefnogi llwyddiant a chyflawniad y myfyrwyr yn y Brifysgol, wedi rhoi i bob Neuadd Breswyl swm o arian i drefnu gweithgareddau sy'n gynhwysol ac sy'n hybu byw'n iach.

Penderfynodd staff a myfyrwyr Pantycelyn gynnal digwyddiad ar batrwm mabolgampau ysgol.

Cynhaliwyd y mabolgampau yng Nghawell Chwaraeon y Brifysgol ddydd Sul 28 Ebrill, a chafwyd llawer o hwyl, gyda gweithgareddau megis rasys wy ar lwy, rasys chwe-choes a thynnu rhaff. Nod y digwyddiad oedd dod â chymuned y neuadd at ei gilydd i fwynhau gweithgareddau iach a chael hwyl.



*Enillwyr mabolgampau 'Hybu Byw'n Iach' Pantycelyn: (o'r chwith i'r dde) Megi Williams, Dafydd Williams, Mabon ap Gwyn, Gruffydd Parry, Gwion Emlyn Williams a Beca Glyn.*

Cyflwynwyd cwpan i'r tîm buddugol ac roedd gwobrau i'r tîm â'r wisg orau. Darparwyd lluniaeth iach i'r myfyrwyr hynny a gymerodd ran.

## Llwyddiant dawnsio

Yn y llun mae disgyblion Ysgol Ddawns a Theatr Ieuenctid Canolfan y Celfyddydau sy'n mynd ymlaen i ddatblygu gyrfa ym myd dawns, drama a/neu theatr gerdd.

**Yn y rhes flaen (o'r chwith i'r dde)**

Hannah Goodchild – Tystysgrif astudiaethau Dysgu Bale yn yr Academi Ddawns Frenhinol

Manon Tomlinson - BA mewn Bale Clasurol a Pherfformio Dawns yn Ballet West

Bethan Pearce – Cwrs cyn-alwedigaethol mewn perfformio Dawns a Theatr yng Ngholeg Doreen Bird

**Yn y rhes gefn (o'r chwith i'r dde)**

Orion Hart – Cwrs sylfaen blwyddyn mewn Dawns Gyfoes yn Rubicon Dance, Caerdydd

Sam Ebenezer - BA (Anrhydedd) mewn Theatr Gerdd yn Academi Celfyddydau Theatr Mountview

Joe Scannell – Mae Joe wedi cael cynnig Diploma Dawns a Theatr Gerdd 3 blynedd yn Laine Theatre Arts, Coleg Doreen Bird ac yn Academi Urdang – nid yw eto wedi penderfynu pa un y mae am ei dderbyn.




## Marwolaethau



**Ifan Gruffydd Moelwyn Hughes (1931-2013)**

Enillodd Ifan Moelwyn Hughes radd Ffiseg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1954. Ar ôl gweithio am rai blynyddoedd yn Llundain, daeth Ifan yn ôl i Gymru yn 1970 ac fe'i penodwyd yn bennaeth ar yr Uned Gyfrifiaduron (sydd bellach yn rhan o'r Gwasanaethau Gwybodaeth) ar adeg pan oedd cyfrifiadureg yn prysur ddatblygu. Daeth Ifan ag arbenigedd i'w swydd ac roedd yn un da am nodi tueddiadau newydd. Pan ymddeolodd yn 1996 gadawodd system dipyn yn fwy o ran maint a chymhlethdod na'r hyn a oedd yno ar y dechrau yn y 1960au. Dros sawl degawd, rhoddodd Ifan yn hael o'i amser i Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth a chapeli Seilo a'r Morfa, a bu'n aelod hefyd o gyngor Llyfrgell Genedlaethol Cymru.



**Lynda Rollason (1946 - 2013)**

Ymunodd Lynda â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn 1998 a daeth yn Rheolwr Lleoliadau y Brifysgol ar gyfer Cymru Prosper Wales ac ar ôl hynny ar gyfer GO Wales. Yn y ddwy rôl trefnodd gyfleoedd lleoliad ar gyfer myfyrwyr a graddedigion ar draws rhanbarth canolbarth Cymru. Aeth Lynda ymlaen i fod yn Rheolwr Profiad Gwaith ar gyfer y Gwasanaeth ac arwain y tîm profiad gwaith yn llwyddiannus.

Yn aelod staff poblogaidd ac uchel ei pharch, byddai Lynda bob amser yn mynd allan o'i ffordd i gefnogi myfyrwyr, cydweithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, a chaiff ei chofio'n annwyl am ei egni a'i bwrdfrydedd diddiwedd yn ei gwaith.

**Yr Athro Gareth Elwyn Jones, MBE (1939 - 2013)**




Dechreuodd yr Athro Gareth Elwyn Jones ei yrfa yn Aberystwyth ym mis Hydref 1990 fel Athro mewn Addysg ac fe'i penodwyd yn Bennaeth yr Adran Addysg a Deon y Gyfadran Addysg yn Hydref 1991 hyd ei ymddeoliad, oherwydd salwch ym mis Gorffennaf 1993.

Roedd ei egni, diddordeb a brwdfrydedd diderfyn dros addysg yn gyffredinol, heb sôn am hanes, yn ysbrydoledig. Roedd yn uchel ei barch, ac yn cefnogi myfyrwyr a chydweithwyr fel ei gilydd.


## Y Silff Lyfrau

**Gwilym Prichard: A Lifetime's Gazing;** cydawduron Dr Harry Heuser a Professor Robert Meyrick

Mae'r gyfrol hon, sydd newydd ei chyhoeddi, yn rhoi ymdriniaeth o'r newydd ar un o hoff beintwyr Cymru. Mae gweithiau Prichard ar olew, gouache, dyfrlliw, pastelau a chyfryngau cymysg yn olrhain gyrfa hir ac uchel ei bri y dyn hwn 'na fwriadodd fod yn artist' ond sy'n dal i roi bywyd newydd i gelf tirluniau mewn gwaith sydd wedi'i ymwreiddio mewn 'einioes o dremio'. Cyhoeddir chwaer gyfrol gan Heuser a Meyrick ar wraig Prichard am 60 mlynedd, Claudia Williams, sydd hithau'n peintio, ym mis Medi. Mae'r llyfrau hyn yn gynnyrch dros ddeng mlynedd o guradu arddangosfeydd teithiol o'u gwaith, o lunio catalogau, o gynnal cyfweliadau ac o gael rhwydd hynt i dwrio drwy eu harchifau personol.




Cynhelir arddangosfa o waith Gwilym Prichard yn yr Ysgol Gelf, i gyd-fynd â chyhoeddi'r llyfr – gweler tudalen 16 i gael gwybod mwy.




**The South Wales Miners 1964-1985; Ben Curtis**

Diwydiant glo llewyrchus y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif oedd y prif reswm dros greu de Cymru ar ei gwedd fodern, ac roedd y glowyr yn rhan annatod o lunio economeg, gwleidyddiaeth a chymdeithas y de yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Mae'r llyfr hwn gan Ben Curtis, Cydymaith Ymchwil yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru, yn olrhain hanes y glowyr hynny rhwng 1964 ac 1985, cyfnod a welodd ymdrech bendant i ddirwyn y diwydiant glo i ben o dan lywodraeth Wilson, twf gwrthsafiad y glowyr, a methiant streic fawr 1984–5 yn y pen draw. Oherwydd eu hymwneud â mudiad ehangach yr undebau llafur a'r gymdeithas ehangach yn ystod y blynyddoedd hynny roedd y glowyr ymhlith y grwpiau pwysicaf yng ngweithlu Prydain o safbwynt strategol ar y pryd.

*The South Wales Miners, 1964–1985* yw'r astudiaeth academaidd gyflawn gyntaf ar y glowyr a'u hundeb ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, cyfnod cythryblus o argyfwng a gwrthdaro.

DIGWYDDIADUR

**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU, ABERYSTWYTH**

# Yr Ŵyl Serameg Genedlaethol

**Dydd Gwener 28 – dydd Sul 30 Mehefin**
Dyma brif ŵyl serameg y DU, yn denu tua 1000 o bobl ac yn cynnig rhaglen orlawn o ddarlithoedd, arddangosiadau ymarferol, arddangosfeydd arbennig, sesiynau tanio ysblennydd a stondinau masnach.

Mae'r stondinau masnach a'r arddangosfeydd ar agor i'r cyhoedd gydol y penwythnos, felly mae croeso i bawb. Hefyd cynhelir gweithgareddau ymarferol cymunedol y gall pawb gymryd rhan ynddynt.

Trefnir yr Ŵyl Serameg Genedlaethol ar y cyd rhwng Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Chymdeithasau Crochenwyr Gogledd a De Cymru. Potclays Cyf. yw prif noddwr yr ŵyl.

I gael gwybod mwy, ac i weld rhestr o Artistiaid Gwadd 2013, ewch i www.internationalceramicsfestival.org

## Gŵyl Corau Stryd 2013

**Dydd Gwener 19 – dydd Sul 21 Gorffennaf**
Bydd Côr Gobaith Aberystwyth yn croesawu 31ain Gŵyl y Corau Stryd rhwng 19 a 21 Gorffennaf. Y nod yw hybu byd heb orthrwm na thrais, drwy gân.

Bydd corau o Brydain a thu hwnt yn perfformio yn yr ŵyl, corau sy'n canu gyda'i gilydd am amryw o wahanol resymau, yn eu plith eu hoffter o ganu! Bydd caneuon protest, cerddoriaeth byd, gwerin a gospel i'w clywed... popeth dan haul. Y gantores werin radical Tracey Curtis fydd uchafbwynt y gig nos Wener. Ddydd Sadwrn bydd pawb yn canu gyda'i gilydd ar lan y môr ganol dydd, ac yna bydd y corau'n bysgio drwy'r dref. Yn cyflwyno cyngerdd gyda'r nos, lle bydd pob un o'r corau'n canu, bydd yr ymgyrchydd heddwch Bruce Kent.




Bydd nifer gyfyngedig o docynnau cyhoeddus ar gyfer cyngherddau dydd Gwener (yn dechrau am 6.40pm) a dydd Sadwrn (yn dechrau am 5.30pm) ar gael o Ganolfan y Celfyddydau am £10 yr un o 1 Mehefin.

I gael gwybod mwy ewch i: www.streetchoir2013.org.uk/national-street-choirs-festival




**ARDDANGOSFEYDD YR YSGOL GELF**

**Dydd Llun 17 Mehefin – dydd Gwener 6 Medi -** Orielau 1 a 2

## O'r Cysgodion: Printiau Sydney Lee

Diolch i waith ymchwil a churadu Robert Meyrick, mae'r arddangosfa hir-ddisgwyliedig hon yn ddathliad o gelf Sydney Lee (1866–1949). Mae'n gyfle i ddarganfod o'r newydd waith un o beintwyr a gwneuthurwyr printiau mwyaf arwyddocaol Prydain, ond un na chafodd sylw dyledus hyd yma. Daw'r arddangosfa i'r Ysgol Gelf yn syth ar ôl cael ei dangos yn Academi Frenhinol y Celfyddydau.


*Sydney Lee, "The Sleeping Square", acwatint 1928*

**Dydd Llun 17 Mehefin – dydd Gwener 6 Medi -** Oriel 3

## Gwilym Prichard: Einioes o Dremio

Mae'r arddangosfa hon, sy'n nodi cyhoeddi monograff gan Robert Meyrick, yn dathlu gyrfa nodedig un o hoff artistiaid Cymru, sef Gwilym Prichard. Ac yntau'n arsylwi ar brydferthwch Cymru, prydferthwch amrywiol sy'n aml heb ei ddofi, mae'n esbonio ei yrfa fel 'einioes o dremio'.


*Gwilym Prichard, "Oia, Santorini", acrylig ar bapur 1986*